



DATGANIAD I'R WASG

DIOLCH – THANK YOU

'GLANHAD CYMUNEDOL' O DREF CAERFYRDDIN

'COMMUNITY SPRING CLEAN' OF CARMARTHEN IN FULL FLOW

Mae 'Glanhad Cymunedol' o Gaerfyrddin yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae'r ymgyrch, sydd yn cael ei arwain gan Faer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, yn cymryd lle drwy gydol y gwanwyn ac mae llawer iawn o'r gwaith wedi'i wneud yn barod ar draws y dref gan nifer o wirfoddolwyr a sefydliadau.

Mae Ford Gron Caerfyrddin wedi cynnal ymgyrch codi sbwriel o Abergwili hyd at Tre Ioan a dywedodd cadeirydd Ford Gron Caerfyrddin, Johnny Griffiths:

'Rydym yn ymhyfrydu ein bod yn medru cyfrannu tuag at y fenter hon a helpu i wneud Caerfyrddin yn le mwy deniadol i ni gyd. Mae'r Ford Gron wedi bod yn cynnal sesiynau casglu sbwriel ers amser maith, a gobeithio y bydd mwy o grwpiau yn ymuno gyda ni yn ystod y gwanwyn hwn'.



Gwasanaeth unigryw i ddynion, yn cael ei arwain gan ddynion, yw Hwb Tywi Hub gyda Men2Men a ariennir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae wedi ei sefydlu i alluogi dynion i gysylltu gydag eraill, gan greu ymdeimlad o berthyn, cymdeithas, a gofod lle maent yn gallu teimlo'n gyfforddus ynddo i siarad am sut y maent yn teimlo mewn gwirionedd. Maent wedi bod yn weithgar iawn yn tacluso'r borderi blodau ger mynedfa Maes Parcio San Pedr ynghyd ac ardaloedd eraill o fewn y dref. Eglurodd ei siaradwr, Fred Luckman "Mae'r gweithgareddau hyn a rennir yn help i ddynion siarad amdanyn nhw eu hunain, yn aml mewn modd dwfn a syml. Mae hyn yn herio unigedd ac yn cynnig amgylchedd hynod gefnogol lle gall dynion newid y ffordd y maent yn teimlo am eu hunain a'u bywydau. Rydym i gyd wedi mwynhau plannu'r borderi ac yn edrych ymlaen at brosiectau yn y dyfodol yng Nghaerfyrddin".



Yn y llun mae gwirfoddolwyr o Hwb Tywi Hub Men2Men, sydd wedi bod yn glanhau ac ail-blannu'r borderi blodau ger mynedfa maes parcio San Pedr.



Yn y llun mae Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, gyda dau wirfoddolwr o Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin, Paul Raven (Cadeirydd yr AGBC a pherchennog Tea Traders) a George Reid (Rheolwr AGBC) yn plannu blodau a phlanhigion yn y 'potiau simnai' yn Stryd Goch, Caerfyrddin.



Yn y llun gyda Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Gareth John, mae gwirfoddolwraig casglu sbwriel, Lesley Francis Evans o Frechfa, sydd wedi bod yn brysur iawn yn cynnal sawl sesiwn casglu sbwriel yng Nghaerfyrddin yn ystod yr wythnos diwethaf.

Mae staff Cyngor Tref Caerfyrddin a Chyngor Sir Caerfyrddin hefyd wedi bod yn brysur iawn yn ystod wythnosau cyntaf y 'glanhad'. Mae'r planwyr yn y Stryd Goch a Maes Nott wedi'u golchi'n barod i'w hailblannu, ac mae pentwr sylweddol o sbwriel wedi ei glirio o Barc Hinds, tu ôl i erddi tai yn Stryd y Prior.

Cafodd maes parcio Wilko's ei lanhau'r wythnos diwethaf, ac mae trefniadau yn mynd yn ei blaen i wella golwg yr ardal ymhellach. Mae trefniadau mewn llaw i lanhau cofebion yng nghanol y dref, a bydd hyn yn cymryd lle yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin yn hwb casglu sbwriel fel rhan o'r fenter 'Cadwch Cymru'n Daclus' ac mae offer, gan gynnwys bagiau gwastraff a offer codi sbwriel, ar gael yn Neuadd Ddinesig San Pedr, Maes Nott, Caerfyrddin. Mae cyngor hefyd ar gael ynglŷn ag asesiadau risg i bobl sy'n dymuno ymgymryd â sesiynau casglu sbwriel fel rhan o'r dull cysylltiedig hwn.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb yn cymryd rhan yn y 'Glanhad' gysylltu â Chyngor Tref Caerfyrddin drwy ffonio 01267 235199 neu drwy e-bost

jafox@carmarhtowntowncouncil.gov.uk